


# Ein Partneriaid a'n Rhanddeiliaid




Drwy weithio gyda’n gilydd mewn partneriaeth, rydym yn gryfach ac yn gallu gofalu am y mynydd yn well

# Ein partneriaid

Mae Eryri'n denu cannoedd o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn sy'n mwynhau'r tirweddau anhygoel a'r cyfoeth o weithgareddau awyr agored sydd ar gael. Nod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw cadw a gwella'r harddwch naturiol, y bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal, hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau ei nodweddion arbennig a meithrin lles economaidd a chymdeithasol ei chymunedau.

Gwirfoddolwyr Twristiaeth a Chymdeithas Marchnata yn gweithio dros ac ar ran busnesau lleol ym Metws-y-Coed a'r pentrefi cyfagos, i helpu i hyrwyddo'r ardal hardd yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddi.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hynny'n golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella lles Cymru ac i ddarparu dyfodol gwell i bawb.

(Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.)

Mae Cymdeithas Eryri wedi gweithio ers 50 mlynedd i warchod a gwella harddwch a nodweddion arbennig Eryri er budd pawb yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'r Bartneriaeth Mynydda Diogel yn hyrwyddo darparu gwybodaeth i rai sy'n ymweld â'r Wyddfa ynghylch cynllunio a pharatoi'n ddiogel er mwyn codi ymwybyddiaeth o hunan ddibyniaeth wrth wneud y gweithgareddau hynny a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o beryglon mynydda, ond gan fwynhau'r profiad.

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn cynrychioli tirfeddianwyr a thenantiaid sy'n ffermio yng Nghymru. Mae'r Undeb yn ceisio sicrhau y dyfodol mwyaf ffyniannus posibl i'w aelodau, eu teuluoedd a'r cymunedau gwledig y maen nhw'n byw ynddynt.

Mae'r CLA yn sefydliad sy'n agored i aelodaeth gan berchnogion tir a busnesau yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn gwarchod buddiannau tirfeddianwyr. Mae ein haelodau'n berchen ar ac yn rheoli hanner tir gwledig Cymru a Lloegr.

Wedi'i sefydlu yn 2004, cwmni partneriaeth cymunedol elusennol yw partneriaeth yr Awyr Agored sy'n newid bywydau trwy gynnal gweithgareddau yn yr awyr agored ac yn ysbrydoli pobl yr ardal i gymryd rhan trwy gyfranogi, addysg, gwirfoddoli a chyflogaeth er mwyn gwella elfennau iechyd, cymdeithasol ac economaidd.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau llywodraeth leol yn Sir Gwynedd, gan gynnwys addysg, gwaith cymdeithasol, gwarchod yr amgylchedd a'r rhan fwyaf o'r priffyrdd.

Cyngor Sir Conwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau llywodraeth leol yn Sir Conwy, gan gynnwys addysg, gwaith cymdeithasol, gwarchod yr amgylchedd a'r rhan fwyaf o'r priffyrdd.

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust | Elusen gadwriaethol yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sefydlwyd ym 1895 i ofalu am fannau arbennig, am byth, i bawb |
| Beddgelert Tourism Association | Mae'r Beddgelert Tourism Association yn cynrychioli busnesau twristaidd yn ac o amgylch pentref Beddgelert |
| Snowdonia-Active Eryri-Bywiol | Menter gymdeithasol ac ymgynghoriaeth greadigol yw Eryri Bywiol. Fe'i sefydlwyd yn 2001 gyda'r nod o gefnogi a datblygu'r sector awyr agored yng ngogledd-orllewin Cymru. |
| Fforwm Mynediad Lleol y Gogledd / Nothern Local Access Forum | Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn gosod dyletswydd ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, fel "Awdurdod Penodi" i sefydlu un neu ragor o Fforymau Mynediad Agored i gynghori'r Awdurdod a sefydliadau eraill ar sut i wella mynediad cyhoeddus ar dir yn Eryri ar gyfer hamddena a mwynhau'r awyr agored. Ceir cydbwysedd rhwng rheoli tir a diddordebau hamdden o fewn yr aelodaeth. |
| HWB ERYRI www.hwberyri.co.uk | Cwmni Buddiannau Cymunedol yw HWB Eryri sydd â'i ganolfan yn Llanberis. Ei ddiben yw "cydweithio i greu cyfleoedd yn y gweithgareddau a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn Eryri a datblygu syniadau ar gyfer y dyfodol. Denu a manteisio ar gyfleoedd datblygu, yn economaidd, lles, diwylliannol a chymunedol er budd cymuned yr ardal". |
| Visit Wales Croeso Cymru | Croeso Cymru sy'n gofalu am bolisi twristiaeth, yn annog buddsoddiad, yn gwella ansawdd profiadau ymwelwyr â Chymru. Croeso Cymru hefyd sy'n gyfrifol am farchnata Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol. |
| Snowdon Mountain Railway Llanberis – To the Summit since 1896 | Ers 1896 mae Rheilffordd Yr Wyddfa wedi rhedeg trenau ar y cledrau i gopa'r Wyddfa. Rheilffordd Yr Wyddfa hefyd sy'n rheoli'r ganolfan ymwelwyr ar y copa – Hafod Eryri. |
| Mountain Rescue England & Wales – NWMRA | Sefydliad ymbarél yw NWMRA ar gyfer timau chwilio ac achub yng ngogledd Cymru. Mae'n cynrychioli timau achub mynydd, ogofeydd a llawr gwlad ledled y rhanbarth. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Hofrennydd Achub Gwylwyr y Glannau i ddarparu gwasanaeth achub drwy gydol y dydd a'r nos gan wirfoddolwyr. |
| NFU The Voice of British Farming | Mae NFU Cymru'n cynrychioli ffermwyr, rheolwyr a phartneriaid busnesau amaethyddol gan gynnwys rhai â diddordeb mewn ffermio a chefn gwlad. |

# Is-grwpiau a Grwpiau Cysylltiedig



# Ein Rhanddeiliaid

Drwy gyflawni ein nodau wrth ymgynghori â'n rhanddeiliaid byddwn yn creu amgylchedd gwell i ni i gyd.



# Ymgysylltu

Mae cydweithredu yn allweddol i'r ffordd y mae'r bartneriaeth yn gweithredu. Rydym yn credu ein bod yn gryfach gyda'n gilydd ac felly rydym wedi ymgysylltu â phobl mewn nifer o wahanol ffyrdd fel y dangosir isod.

| 8 gwahanol ffordd o ymgysylltu | Nifer y cysylltiadau â phobl |
|---|---|
| Cyfarfodydd | 215 |
| Gweithdai | 125 |
| Sesiynau galw heibio | 71 |
| Seminar | 100 |
| Grwpiau Ffocws | 81 |
| Arolygon | 456 |
| E-daflenni newyddion | 834 |
| Gwefan: partneriaethyrwyddfa.co.uk | 2388 |
| Cyfanswm | 4267 |

